**Y Pwyllgor Datblygu Economaidd** **EDC 17-02 (cofnodion drafft)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **28 Tachwedd 02** |
| **Amser** | **9.00 – 12.30am** |
| **Lleoliad** | **Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd** |

**Yn bresennol**

| **Aelodau** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Andrew Davies (Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd) | Gorllewin Abertawe |
| Ron Davies | Caerffili |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Alison Halford | Delyn |
| David Ian Jones | Gogledd Cymru |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| David Pritchard | Cyfarwyddwr yr Adran Datblygu Economaidd |
| Emyr Roberts | Is-adran Polisi Economaidd |
| Jonathan Price | Uned Ymchwil Economaidd |
| Keith Parsons | Is-adran Polisi Economaidd |

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Yr Athro Dylan Jones-Evans | Ysgol Fusnes a Datblygu Rhanbarthol, Prifysgol Bangor |
| Dr. Virginia Chambers | Cyfarwyddwr Datblygu; Technoleg ac Arloesedd, Awdurdod Datblygu Cymru |

| | |
|---|---|
| Yr Athro Garel Rhys | Cadeirydd y Panel Ymgynghorol ar Ymchwil Economaidd |
| Philip Evans | Cadeirydd, Bwrdd Croeso Cymru |
| Jonathan Jones | Prif Weithredwr, Bwrdd Croeso Cymru |
| Steve Webb | Cyfarwyddwr Strategaeth, Bwrdd Croeso Cymru |

**Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| John Grimes | Clerc |
| Sian Wilkins | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant.**

1. Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau bod angen datgan buddiant os yw'n berthnasol i eitem benodol yn unig o hyn ymlaen. Yn ystod y cyfarfod, cafwyd datganiadau o fuddiant gan: Dafydd Wigley sy'n Gadeirydd Bwrdd Ymgynghorol Ysgol Fusnes a Datblygu Rhanbarthol, Prifysgol Bangor; Cadeirydd Bwrdd Techniquest Gogledd Cymru, aelod o fwrdd IP Wales a Chadeirydd Etholedig Ymddiriedolaeth Hybu Gwyddoniaeth Cyf; Phil Williams, sy'n gysylltiedig â chais ar gyfer Amcan 1 ym Mhrifysgol Aberystwyth ac sy'n cymryd rhan mewn gwaith a ariennir gan grantiau'r Cyngor Ymchwil; Andrew Davies, sy'n aelod o fwrdd IP Wales; a David Ian Jones sy'n gweithredu ar ran landlord Pencadlys Bwrdd Croeso Cymru yng Ngogledd Cymru ac sydd â nifer o gwsmeriaid sy'n cadw gwestai ac sydd wedi derbyn grantiau oddi wrth Fwrdd Croeso Cymru.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog**

**EDC 17-02 (p1)**

**EDC 17-02(p1a)**

1. Cyflwynodd y Gweinidog ei adroddiad gyda chrynodeb llafar o'r datblygiadau diweddaraf yr amgaeir copi ohono fel atodiad i'w adroddiad.
2. Cododd yr aelodau sawl mater ynghylch datganiad cyn-gyllidebol y Canghellor y diwrnod cynt. Mynegwyd pryder bod yr Ardaloedd Menter yn seiliedig ar yr un wardiau â'r rheini sydd wedi'u heithrio thag talu'r dreth stamp. Roeddent o'r farn eu bod yn wardiau preswyl yn bennaf, ac na fyddent yn gallu cynnig cyfleoedd i fusnesau. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n paratoi papur ar gyfer y Pwyllgor pan fyddai manylion y cynllun yn fwy eglur. Dywedodd hefyd bod 47% o'r boblogaeth yng Nghymru wedi'u heithrio rhag talu'r dreth stamp, a bod 60% yn byw mewn ardaloedd sy'n derbyn y Credyd Treth ar gyfer Buddsoddi mewn Cymunedau. Fe'i anogwyd gan yr aelodau i bwyso am fwy o hyblygrwydd a

chefnu ar gynlluniau sy'n seiliedig ar wardiau preswyl. **[Gweithredu: Gweinidog DE]**

3. Dywedodd un aelod, ar sail y profiad a gafwyd yn y UDA, bod y cynnig mewn perthynas ag Ardaloedd Menter yn cadarnhau mai gostwng y dreth ar elw oedd y ffordd orau o ddenu busnes i ardal benodol. Anogodd y Gweinidog i sôn wrth y Trysorlys am y posibilrwydd o bennu Treth Gorfforaethol yng Nghymru wrth drafod cymhorthion gweithredu. Dywedodd y Gweinidog wrth yr aelodau bod rheolau'r Cymorth Gwladol yn cyfyngu ar y rheoliadau sy'n ymwneud â'r Dreth Gorfforaethol.
4. Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd llawer o sôn am Gymru yng Nghynllun Gweithredu Cenedlaethol 2002 y DU ar gyfer Cyflogaeth. Dywedodd y Gweinidog bod y rhan fwyaf o'r adroddiad yn sôn am weithredu yn y sector addysg, ond cytunodd i ddarparu mwy o wybodaeth i'r aelodau**. [Gweithredu: Gweinidog DE]**
5. Roedd pryder bod yr Adran Fasnach a Diwydiant yn debygol o leihau'n sylweddol nifer y cynlluniau ar gyfer busnesau bach yn ei hadolygiad presennol o gymorth i fusnesau, ac y byddai hynny'n effeithio'n fawr ar Gymru. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn teimlo bod Cymru ymhell o flaen gweddill y DU o safbwynt symleiddio cymorth i fusnesau. Serch hynny, dywedodd ei fod yn cyfarfod â Phrif Weithredwr y Gwasanaeth Busnesau Bach er mwyn ystyried ffyrdd o gydweithio a sicrhau nad yw cynlluniau yn gorgyffwrdd â'i gilydd. Cytunodd i ddarparu mwy o wybodaeth am adolygiad yr Adran Fasnach a Diwydiant. **[Gweithredu: Gweinidog DE].**
6. O safbwynt Mentrau Cyllid Preifat, dywedodd y Gweinidog bod Prif Weinidog Cymru o blaid defnyddio cyllid preifat os yw'n rhoi gwerth am arian. Dywedodd ei bod yn bwysig bod y sector preifat a chyhoeddus yn cydweithio'n agosach.
7. Gofynnodd un o'r aelodau a fyddai y rhagolygon diwygiedig ar gyfer economi'r DU yn anerchiad cyn-gyllidebol y Canghellor yn cael effaith wahanol ar Gymru. Dywedodd y Gweinidog nad oedd yn credu y byddai'n cael yr un effaith, ac y gallai twf yr economi yng Nghymru fod yn uwch nag yn y DU. Ailadroddodd yr hyn a ddywedodd mewn cyfarfodydd blaenorol sef bod y targedau yn Cymru'n Ennill wedi'u pennu ar gyfer newid yr economi yng Nghymru yn y tymor hir, ac nad oedd angen eu diwygio ar hyn o bryd.
8. Trafodwyd a oedd y Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (GDP) yn fesur priodol o berfformiad economaidd. Awgrymwyd y byddai cyfri swyddi yn ddull mwy defnyddiol, am ei fod yn anodd cael gafael ar y ffigurau diweddaraf. Awgrymwyd hefyd y dylid cyflwyno mesurau cynaliadwyedd. Dywedodd y Gweinidog nad oedd cau bwlch y GDP yn darged penodol yn Cymru'n Ennill. Serch hynny, os llwyddir i gyrraedd y targedau eraill, fe ddylai hynny gau'r bwlch. Cytunodd y Gweinidog i baratoi papur ynghylch y mesurau eraill. **[Gweithredu: Gweinidog DE]**
9. Wrth ateb cwestiynau'r aelodau, cadarnhaodd y Gweinidog fod penderfyniad Ford i gynhyrchu injan V6 ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn hytrach na'r injan I6, yn ymateb i sefyllfa'r farchnad yn unig. Nid oedd yn ymwneud â chapasiti.
10. Cadarnhaodd y Gweinidog bod penderfyniad Zurich ynghylch swyddi newydd yng

Nghaerdydd wedi'u wneud cyn y cyhoeddiad bod swyddi'n cael eu colli yng Ngogledd Cymru. Cytunodd i ymgynghori ag Aelodau Cynulliad yr etholaethau a'r rhanbarthau wrth drafod â'r cwmni ar y mater hwn.

11. Gofynnodd yr aelodau am fwy o wybodaeth am y gynhadledd ar ynni a oedd yn cael ei chynnal yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw. Dywedodd y Gweinidog mai nod y gynhadledd oedd trafod effaith NETA â'r prif gynhyrchwyr ynni, ac y byddai'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor. Cytunodd hefyd i hysbysu'r aelodau pan fyddai TAN8 a'r Cynllun Gofodol yn cael eu cyhoeddi, a dywedodd ei fod yn bwysig bod y ddadl ar ynni adnewyddol yn canolbwyntio ar gynhyrchu llai o garbon**.** **[Gweithredu: Gweinidog DE]**
12. Croesawodd yr aelodau adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig ar Fand Eang, ond roeddent yn siomedig na chawsant gymryd rhan yn gynt yn yr archwiliad. Dywedodd y Gweinidog nad oedd wedi darllen yr adroddiad eto, ond y byddai'n ymateb iddo yn y cyfarfod nesaf. Cytunodd i ddarparu mwy o wybodaeth am y ffibr sydd ar gael ledled Cymru, a chynllun manwl sy'n dangos lle byddai'r cysylltiadau â'r prif ffibr. Awgrymodd yr aelodau y dylid comisiynu archwiliad o'r ffibrau optig sydd ar gael yng Nghymru. Dywedodd y Gweinidog bod llawer iawn o ffibr yng Nghymru, ond mai ychydig iawn ohono sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Mae'n bwysig cynyddu'r galw am wasanaethau band eang, a defnyddio'r sector cyhoeddus i lywio hyn. Pwysleisiodd nad oedd modd gwneud hyn drwy gysylltedd ac isadeiledd yn unig, ond bod angen nodi ym mha ffordd y byddai o fudd i fusnesau. **[Gweithredu: Gweinidog DE]**
13. Dywedodd y Gweinidog y byddai'r cyllid a roddir i'r Awdurdodau Lleol er mwyn hwyluso'r broses o roi'r Rhwydweithiau Dysgu Gydol Oes ar waith, yn cael ei ddarparu trwy gyfrwng y Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant (GEST). Hefyd, byddai'r arian yn cael ei glustnodi er mwyn sicrhau nad yw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau eraill. Dywedodd un aelod bod rhai Awdurdodau Lleol yn teimlo nad oedd ganddynt ddigon o arian weithredu polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar fand eang, a gofynnodd i'r Gweinidog ganolbwyntio ar hyn pan fydd yn cyflwyno ei bapur ar fand eang i'r Pwyllgor. Cytunodd y Gweinidog i roi'r wybodaeth hon i'r Gweinidog dros Gyllid a Llywodraeth Leol. **[Gweithredu: Gweinidog DE]**
14. Mewn ymateb i gwestiynau ynghylch cymhorthion gweithredu, cytunodd y Gweinidog i baratoi papur ar gyfer y cyfarfod nesaf am ei drafodaethau â'r Trysorlys. **[Gweithredu: Gweinidog DE]**
15. Eto, soniodd yr aelodau am yr effaith anghymesur y byddai'r cynnydd ym mhremiymau yswiriant yn ei gael ar fusnesau yng Nghymru. Dywedodd y Gweinidog bod y Canghellor wedi cyhoeddi adolygiad ffurfiol o'r sefyllfa a chytunodd i roi mwy o wybodaeth am hyn pan fydd ar gael. **[Gweithredu: Gweinidog DE]**
16. Wrth ddod â'r drafodaeth i ben, gofynnodd y Cadeirydd i'r Gweinidog ymateb i araith y Frenhines cyn gynted â phosibl. **[Gweithredu: Gweinidog DE]**

**Eitem 3: Ymchwil a Datblygu**

**EDC 17-02(p2)**

**EDC 17-02(p3)**

**EDC 17-02(p4)**

1. Cyflwynodd yr Athro Dylan Jones-Evans ei bapur trwy dynnu sylw at rai o'r pwyntiau allweddol. Dywedodd bod y ffigurau diweddaraf yn dangos bod yr hyn a wariwyd ar ymchwil yn y sector cyhoeddus wedi gostwng 33% yng Nghymru ers 1999, o'i chymharu â chynnydd o 11% yn y DU. Bellach, mae Cymru yn cyfrif am 1.1% o gyfanswm y gwariant ar Ymchwil a Datblygu yn y DU, o'i chymharu ag 1.8% yn 1999. Gogledd Ddwyrain Lloegr yw'r unig ranbarth yn y DU i wario llai na hynny. Gwariodd Prifysgolion Cymru gyfanswm o £71 miliwn ar ymchwil yn 2000-01. Er mwyn cyrraedd cyfartaledd y DU ar gyfer pob aelod academaidd o staff, byddai'n rhaid i Gymru wario £20 miliwn ychwanegol y flwyddyn. Er mwyn cyrraedd cyfartaledd yr Alban, byddai'n rhaid gwario £32 miliwn. Cymharodd y ffigurau hyn â'r £6 miliwn ychwanegol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr gan Gymdeithas Ymchwil Prifysgolion yng Nghymru. Roedd ansawdd yr ymchwil yn dda yng Nghymru ar y cyfan, o'i chymharu â'r DU oherwydd cryfderau mewn seicoleg, cynllunio gwlad a thref a pheirianneg sifil. Nid oedd yr ymchwil gystal yng Nghymru mewn meysydd sy'n defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf. Tynnodd sylw at wendidau difrifol mewn mathemateg pur, mathemateg gymhwysol a ffiseg. 3.2% yn unig o gyfanswm ymchwilwyr y DU sy'n gweithio yng Nghymru.
2. Daeth i'r casgliad mai'r broblem yng Nghymru oedd diffyg 'polisi gwyddoniaeth'. Nid oedd wedi llwyddo i ddod o hyd i'r term ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol. Cymharodd hyn â'r sefyllfa yn Iwerddon, lle mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i Ymchwil a Datblygu ac wedi dyrannu £1.6 biliwn ar ei gyfer. Teimlodd bod hyn yn esiampl y gallai Cymru ei dilyn, ond dywedodd nad arian yn unig yw'r ateb, ond bod angen denu a chadw mwy o wyddonwyr yng Nghymru.
3. Wrth drafod ei phapur, dywedodd y Dr. Virginia Chambers fod y WDA yn croesawu'r drafodaeth hon a'r Cynllun Gweithredu diweddar ar Arloesi. Cyn y gall buddsoddi mewn ymchwil a datblygu ddwyn ffrwyth a chyfrannu at yr economi, rhaid ei fasnacholi h.y. troi'r buddsoddiad yn gynhyrchion/prosesau newydd trwy Arloesi. Dywedodd fod gan yr Awdurdod amrywiaeth eang o raglenni sy'n cefnogi arloesi ac ymchwil a datblygu. Mae'r rhaglenni hynny'n cynnwys cymorth i ddatblygu cynhyrchion, prosesau a gwasanaethau newydd, i fabwysiadu technolegau newydd, i greu sgil-gynhyrchion sy'n defnyddio technoleg newydd, i feithrin cysylltiadau â phrifysgolion, i ddiogelu IPR ac i ddatblygu sectorau a chlystyrau. Cyfeiriodd yn arbennig at wariant y sector preifat ar ymchwil a datblygu. Er bod llawer iawn o waith i'w wneud hyn o beth, ei theimlad oedd bod pethau lawer fwy calonogol nag y mae'r ffigurau swyddogol yn eu hawgrymu.

Roedd tystiolaeth bod mwy o fusnesau bach a chanolig yn arloesi ac yn datblygu cynhyrchion, gwasanaethau a phrosesau newydd. Mae cwmniau mawr sy'n cynnal gwaith ymchwil a datblygu yng Nghymru yn tueddu i'w gofnodi fel gwariant yn eu prif swyddfeydd. I hybu gwariant y sector preifat mewn ymchwil a datblygu, bydd gofyn canolbwyntio ar y sectorau sy'n tueddu i gynnal llawer o waith ymchwil a datblygu, fel y biowyddorau, technoleg gwybodaeth, meddalwedd a'r diwydiannau ceir ac awyrofod.

4. Wrth ateb cwestiwn, dywedodd y Dr Chambers bod y 663 o 'brosiectau cydweithredu â sefydliadau academaidd' yn brosiectau cydweithredol go iawn gyda'r byd academaidd ac yn cynnwys canolfannau rhagoriaeth ac ati. Dywedodd y byddai'n anfon enghreifftiau o astudiaethau achos at aelodau. **[Gweithredu: Dr Chambers/Clerc]**
5. Siaradodd yr Athro Garel Rhys am y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma gan y Panel Ymgynghorol ar Ymchwil Economaidd (ERAP) a gafodd ei sefydlu, dywedodd, ar argymhelliad y PDE. Dywedodd mai hwn oedd y panel cyntaf o'i fath yn y DU a'i fod yn ddatblygiad cyffrous a oedd i'w groesawu. Roedd y panel eisoes wedi dechrau ar ei waith ac wrthi'n ymgynghori ar raglen waith y 3 blynedd nesaf. Yr oedd y papur yn dangos nad oedd prinder meysydd y gellid gweithio ynddynt. Roedd yn bwysig, teimlid, eu bod yn canolbwyntio ar waith ymchwil a fyddai'n esgor ar ganlyniadau arwyddocaol ac ymarferol i ategu polisïau a oedd yn realistig ac yn gyraeddadwy.
6. Cyfeiriodd at y rhaglen a amlinellwyd ym mhapur y Pwyllgor a oedd yn enwi 97 o brosiectau y gellid eu hystyried. Mae'r panel yn ymgynghori ar y rhaglen hon. Dywedodd nad oedd y prosiectau wedi'u rhoi yn nhrefn blaenoriaeth. Dywedodd y carai'r Panel glywed syniadau'r Pwyllgor ar gyfer eu blaenoriaethu.
7. Yn y drafodaeth, rhoddodd yr Aelodau groeso brwd i'r papurau gan ddweud mai'r her oedd cael Cymru i chwyldroi ei hymrwymiad i ymchwil. Cyfeiriodd yr Athro Jones-Evans at y sefyllfa yn Iwerddon a sut yr oedd y llywodraeth yno wedi defnyddio arian Amcan 1 i feithrin y sector Addysg Uwch. Yr allwedd meddai oedd ymrwymiad y Gwyddelod i gydlynu'r gwerth miliynau o bunnau o gymorth a ddaeth o goffrau Ewrop ar gyfer ymchwil a datblygu. Dywedodd i'r arian gael ei ddefnyddio i feithrin arbenigeddau mewn sectorau penodol. Cymharodd hyn â'r arfer yng Nghymru i adael i'r colegau unigol geisio am arian o'r fath. Pwysleisiodd bwysigrwydd gweithio mewn ffordd gydlyn. Mae gwaith ymchwil yn cael ei 'ddarnio' yng Nghymru, ac nid oes gennym y 'mas critigol' angenrheidiol. Mae angen gwyrdroi hynny. Dywedodd ei bod hi'n bwysig sylweddoli bod ymchwil wyddonol ac ymchwil arloesi yn ddau beth gwahanol - heb y cyntaf, byddai'r ail yn colli stêm.
8. Ar fater cysylltiedig, pwysleisiodd yr Athro Jones-Evans bod angen prosiectau datblygu economaidd ledled Cymru. Yn ei farn ef, roedd yn anffodus bod cymaint o'r bobl sy'n gweinyddu ac yn rheoli rhaglenni amcan 1 yn gweithio y tu allan i ardal amcan 1. Credai bod angen i gymaint o'r arian â phosibl fynd i feithrin galluoedd yn yr ardaloedd dan sylw. Cyfeiriodd at enghraifft Lerpwl a oedd wedi

gorfod ail-ymgeisio am statws Amcan 1 oherwydd diffyg llwyddiannau y tro cyntaf.

9. Er bod y Ddogfen Raglen Sengl yn cydnabod pwysigrwydd ymchwil a datblygu, roedd yn bryderus bod gormod o'r £41m a oedd wedi'i neilltuo i'r diben hwn yn mynd at drosglwyddo technoleg a gweithgareddau masnacholi. Yn arbennig, teimlai y dylai'r nawdd i Techniums ddod o dan benawd 'isadeiledd' y rhaglen gan eu bod yn dwyn gormod o arian oddi ar y prif brosiectau ymchwil a datblygu.
10. Cafwyd trafodaeth eang ar sut i fynd â ffrwyth ymchwil academaidd i'r farchnad. Cydnabuwyd bod llawer o academyddion am ganolbwyntio ar ymchwil yn unig, a ph'run bynnag, roedd llawer ohonynt yn brin o'r sgiliau i redeg busnes. Ar y llaw arall, pe bai gwaith ymchwil dyrnaid yn unig o'r academyddion yn dwyn ffrwyth, byddai'n esgor ar fuddiannau mawr i'r economi.
11. Codwyd nifer o ffactorau perthnasol eraill. Yn gyntaf, roedd gan wyddoniaeth ddelwedd ddrwg a does fawr o anogaeth i fyfyrwyr ei dilyn fel gyrfa. Mae'r sefyllfa'n wahanol iawn yn yr Almaen lle mae parch mawr i wyddonwyr ac i beirianwyr yn arbennig gan bobl mewn diwydiant.
12. Mae rhai academyddion a dyfeiswyr yn amharod hefyd i rannu'u prosiectau 'nhw' - ond mae gofyn gwneud hynny i gael y nawdd ariannol a'r arbenigedd busnes i fasnacholi'r syniad yn llwyddiannus. Dywedodd yr Athro Jones-Evans y byddai'n syniad da, fel cam cyntaf, bod myfyrwyr yn dilyn modwl busnes yn eu cyrsiau Meistr. Gallai masnacholi fod yn elfen o'r modwl hwnnw. Mae gofyn hefyd datblygu mwy o ganolfannau busnes mewn prifysgolion. Dywedodd fod digonedd o arian i ddatblygu syniadau newydd - y broblem yw'r diffyg galw amdano.
13. Cafodd nifer o syniadau eraill eu trafod. Roedd cymorth treth i ddenu ymchwil a datblygu yn bwysig, yn bennaf am ei fod yn cael ei gynnig mewn gwledydd eraill a hebddo, gallai Cymru golli allan. Mae angen gofalu hefyd bod Prifysgolion Cymru yn gwneud y gorau o'u Hawliau Eiddo Deallusol - yn wir, byddai cydnabod eu bodolaeth a bod iddynt werth masnachol yn gam ymlaen.
14. Cyfeiriodd yr Athro Jones-Evans at y cynnig i greu bwrseriaeth Gymreig o ryw £15,000 y flwyddyn i fyfyrwyr i ddod i Gymru. Gallai £2.5m ddenu 50 o wyddonwyr ifainc gorau Ewrop i Gymru, ac er bod cynllun o'r fath wedi'i baratoi, nid yw wedi'i ddatblygu am fod yr GE, ymddengys, yn gwrthwynebu rhoi nawdd i ymchwil bur. Gofynnodd y Gweinidog am gael gweld manylion yr hyn ddigwyddodd er mwyn ymchwilio i'r mater. **[Gweithredu: Yr Athro Dylan Evans-Jones/Gweinidog DE]**
15. Dywedodd y Dr Chambers bod adolygiad wedi'i gynnal o waith diweddar y cynlluniau Smart a Spur, yn dilyn eu trosglwyddo i'r WDA, a chafwyd tystiolaeth bod y cwmnïau a noddwyd yn parhau i fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu. Roedd trosiant y cwmnïau hynny wedi codi. Cytunodd fod angen anogaeth a chymorth ar academyddion i fasnacholi eu syniadau. Crybwyllodd y dylai prifysgolion gyflogi swyddog cyswllt diwydiant i bontio rhwng ymchwil a busnes. Mae busnesau bach, meddai, yn aml yn ei chael yn anodd i weld sut y gallai ymchwil helpu eu busnesau.
16. Dywedodd yr Athro Rhys mai Prif Weinidog Cymru a Llywodraeth y Cynulliad bennodd cylch gwaith y Panel Ymgynghorol ar Ymchwil Economaidd a mater

iddynt hwy hefyd fydd cytuno ar ei raglen waith. Gwaith y Panel yw cynghori'r Llywodraeth a'i Phwyllgorau. Mae'r PDE yn un o'r rheini. Mae ganddo felly ran amlwg i'w chwarae yn ei ddatblygiad. Gan gyfeirio at glystyrau, dywedodd nad oeddynt yn bethau newydd. Tan yn ddiweddar, 'clwstwr' oedd economi Cymru, wedi'i seilio ar haearn, dur, llechi a rheilffyrdd. Bu'n llwyddiannus tan i'r diwydiannau hynny drengi. Mae'n ddigon posib bod symud at economi mwy amrywiol yn ei chryfhau, ond mae'n anoddach manteisio ar 'arbedion maint'.

17. Wrth ymateb i rai o'r pwyntiau, dywedodd y Gweinidog fod yn dda ganddo bod y drafodaeth hon yn cael ei chynnal a bod y Pwyllgor yn cyfrannu ati. Atgoffodd yr Aelodau y byddent yn trafod ei Gynllun Gweithredu ar Arloesi yn y cyfarfod nesaf. Dywedodd mai'r cwestiwn mawr i unrhyw fusnes yw sut y gall y busnes hwnnw newid ei ddiwylliant. Cyfeiriodd at enghreifftiau lle roedd hyn wedi digwydd a dywedodd mai amcan ei bolisïau yw helpu cwmnïau i ddatblygu'r sgiliau a'r galluoedd i arloesi ac ehangu. Cydnabu nad oedd pob academydd am droi ei syniadau yn gynigion masnachol. Er hynny, dywedodd fod rhai'n awyddus i wneud hynny a bod angen eu cefnogi a'u hannog. Er nad oedd yn anghytuno â llawer o'r cymariaethau ag Iwerddon, dywedodd i'r 'wyrth' Wyddelig ddigwydd heb sail wyddonol gadarn. Peth diweddar oedd eu hymdrechion i ddatblygu polisi ystyrlon a chydlyn ar wyddoniaeth. Yr her sy'n wynebu Cymru a'i 13 sefydliad addysg uwch yw datblygu'r 'mas critigol' a fyddai'n ei galluogi i symud yn ei blaen.
18. Wrth gloi'r drafodaeth, diolchodd y Cadeirydd yr holl gyfranogwyr am eu papurau ac am gymryd rhan mewn trafodaeth a oedd yn ei golwg hi yn drafodaeth ddefnyddiol iawn am bwnc pwysig iawn. Cyfeiriodd at y drafodaeth am y Cynllun Gweithredu ar Arloesi i'w chynnal yn y cyfarfod nesaf a dywedodd y byddai'n neilltuo amser yn y cyfarfod hwnnw i gael trafodaeth fer ar gyfraniad posibl y Pwyllgor at y drafodaeth ar bolisi gwyddoniaeth. [Dywedodd ei bod yn gobeithio y gallai'r Gweinidog baratoi papur ar hyn i'r Pwyllgor ei drafod]. Dywedodd hefyd y bydd yr ymgynghoriad ar raglen ymchwil ddrafft ERAP wedi dod i ben ym mis Ionawr ac y byddai'n trefnu trafodaeth arall yn y PDE ar 16 Ionawr i aelodau allu mynegi eu barn a chydlynu ymateb y Pwyllgor.

**Eitem 4: Bwrdd Croeso Cymru - adolygiad chwemisol**

**EDC 17-02 (p6)**

1. Agorodd Philip Evans y drafodaeth trwy gymharu'r hyn y mae'r Bwrdd Croeso wedi'i wneud hyd yma eleni â'i dargedau. Dywedodd fod yr adnoddau ychwanegol a oedd ar gael iddynt, yn enwedig o Ewrop, wedi cyfrannu at eu llwyddiant. Cyfeiriodd at lwyddiant ymgyrch hysbysebu y 'Big Country'. Yn ôl ymchwil, bu'r ymgyrchoedd yn fwy effeithiol nag ymgyrch unrhyw ran arall o'r DU.
2. Llongyfarchwyd Philip Evans gan yr aelodau ar gael ei ailbenodi'n ddiweddar yn

Gadeirydd. Dywedodd yr aelodau bod teimlad ar droed eu bod yn dechrau 'gwerthu Cymru' ond eu bod yn dal yn ofidus am broffil Cymru dramor. Dywedodd Philip Evans bod y Bwrdd Croeso yn gwario mwy ar hyrwyddo Cymru yn America nag y mae'r BTA yn ei wario ar hyrwyddo'r DU gyfan.

3. Cadarnhaodd Jonathan Jones eu bod newydd gyflwyno i'r Gweinidog eu Strategaeth ar Dwristiaeth Ddiwylliannol a'u bod yn disgwyl am ei ymateb. Ymgynghorwyd arno'n eang. Roeddynt hefyd wrthi'n datblygu Cynllun Gweithredu ar Dwristiaeth Chwaraeon a'u bod yn annog cyrff llywodraethu'r campau yng Nghymru i gynnig digwyddiadau. Dywedodd eu bod yn rhoi blaenoriaeth i gefnogi digwyddiadau fydd yn ymestyn hyd y tymor ymwelwyr. Cytunodd hefyd i roi ateb ysgrifenedig i gwestiwn gan aelod am gefnogaeth i ddigwyddiad penodol. **[Gweithredu: WTB]**
4. Roedd rhai aelodau'n ofidus am y berthynas rhwng y WDA a'r Bwrdd Croeso. Teimlent y gallai fod yn fwy cynhyrchiol. Nodwyd, er enghraifft, nad oedd hysbysebion y WDA ar British Airways yn sôn dim am visitwales.com. Roedd y Bwrdd Croeso yn rhannu'r un gofidiau a'u bod yn cael eu hannog i ddatblygu perthynas strategol gryfach â chyrff fel y WDA.
5. Roedd y Bwrdd Croeso yn poeni, fel rhai o'r aelodau, am newidiadau diweddar i rôl y BTA. Roeddent yn teimlo ei bod yn bwysig trafod eu bod yn cael cyfran deg o'r targedau ac roeddynt wedi cwrdd â'r BTA i'w trafod. Mater i'r Gweinidog fodd bynnag fydd y trafodaethau terfynol. Cytunodd yr aelodau i ysgrifennu at y Gweinidog i gefnogi'r targed o 6% i Gymru. **[Gweithredu: Clerc]**
6. Nodwyd nad oedd y Bwrdd Croeso wedi cwrdd â'r targedau archebu o dan y *Destiniation Management System (DMS)* newydd. Dywedodd Philip Evans i 2000 ymweld â'r wefan ond dim ond 200 oedd wedi archebu gwyliau. Dywedodd fod ymwelydd â'r wefan yn gallu cysylltu'n syth â'r gyrchfan ac roedd yn anodd dweud felly faint o bobl archebodd wyliau wedi ymweld â'r wefan. Roedd y Bwrdd Croeso wedi rhoi diwrnod o hyfforddiant i dros 800 o reolwyr atyniadau ar weithio'r system ond ei bod yn dal yn anodd argyhoeddi busnesau bach o werth e-fasnach. Nid oedd yn bwnc oedd o ddiddordeb i'r sector ymwelwyr. Nid oedd wedi clywed bod y sector yn cael trafferth arbennig i fynd ar fand eang. Awgrymodd un aelod y gallai'r Bwrdd Croeso ystyried defnyddio'r DMS fel un o feini prawf y cynllun graddio.
7. Wrth drafod yr anawsterau i deithio o gwmpas Cymru ar drafnidiaeth gyhoeddus, dywedodd y Bwrdd Croeso ei fod yn fater nad oeddynt yn gyfrifol amdano. Eu rôl hwy yn hytrach oedd gofalu bod gwybodaeth ar gael i ymwelwyr iddynt allu cynllunio'u teithiau.
8. Er i'r diwydiant ymwelwyr ddioddef o ganlyniad i Glwy'r Traed a'r Genau, dywedodd fod y cynnydd o 11% yng ngwariant ymwelwyr o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd yn dangos eu bod yn adennill tir. Er hynny, roedd rhagor o dir eto i'w ennill.
9. Dywedodd Jonathan Jones mai un o'r prif flaenoriaethau wrth ehangu'r 'cynnyrch' i ymwelwyr yw cael hyd i ffyrdd i ymestyn y 'tymor'. Cyfeiriodd at gwmni a oedd

wedi defnyddio grant Adran 4 i adeiladu pwll nofio dan-do a llwyddo i ymestyn y tymor yn sylweddol. Ychwanegodd y byddent yn cadw grant yn ôl pe baent yn teimlo y gallai busnes fod ar agor drwy'r flwyddyn ac nad oeddynt yn gwneud hynny.

10. Cytunodd y Bwrdd Croeso fod llawer o reolwyr atyniadau yn poeni'n fawr am y cynnydd diweddar ym mhris yswiriant atebolrwydd cyflogwyr ac y byddai llawer o fusnesau'n mynd i'r gwellt o'i herwydd. Dywedodd Philip Evans fod costau wedi codi 2000% mewn rhai achosion. Mae'r Bwrdd Croeso am ysgrifennu at Lloyds ond sylweddolir mai penderfyniad masnachol ydyw nad oedd gan y Bwrdd Croeso fawr o ddylanwad drosto.
11. Cyfeiriwyd at flaenoriaeth y Bwrdd Croeso i hyrwyddo 'twristiaeth werdd'. Dywedwyd mai'r amgylchedd oedd un o'r ffactorau pwysicaf o ran denu ymwelwyr i Gymru ac fe wnaethant ddisgrifio'u gwaith gyda'r Bartneriaeth Môr Gwyrdd i wella ansawdd cyfleusterau ar draethau. O ran ffermydd gwynt ar y tir, dywedodd y Bwrdd Croeso nad oeddynt wedi cynnal ymchwil fanwl i effeithiau ffermydd gwynt ar dwristiaeth. Roeddynt wedi clywed am ymchwil yn yr Alban a ddangosodd nad oedd eu heffaith yn fawr ond roeddynt yn sylweddoli y byddai'n rhaid iddynt gynnal eu hymchwil eu hunain hwyr neu hwyrach, efallai fel rhan o'u harolygon rheolaidd o ymwelwyr. Nid oeddynt yn gwrthwynebu ffermydd gwynt cyn belled â'u bod yn cael eu hadeiladu ar safleoedd addas.

**Eitem 5: Adolygiad Pum-mlynedd y Bwrdd Croeso**

**EDC 17-02 (p7)**

1. Oherwydd prinder amser, awgrymodd y Cadeirydd bod yr Aelodau yn anfon eu sylwadau ar yr adolygiad at y Clerc dros yr ebost. Dywedodd ei bod yn gobeithio y byddai'r aelodau yn cefnogi'i barn y dylid cadw grantiau Adran 4 yn ôl a gofynnodd i'r aelodau eu hunain gysylltu â'r Gweinidog ar y mater.

**Eitem 6: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**EDC 16-02 Cofnodion (Drafft)**

**EDC 17-02 Camau heb eu cymryd eto**

1. Dywedodd un aelod nad oedd yn teimlo bod cofnod y drafodaeth ar Gronfeydd Strwythurol yn y cyfarfod diwethaf yn adlewyrchu ei bryderon am ddatymrwymo a gofynnodd fod y paragraff canlynol yn cael ei ychwanegu at y cofnodion. *'Pwysleisiodd un aelod bod yr arian Ewropeaidd sy'n cael ei neilltuo i'r holl raglenni Ewropeaidd lawer llai na'r Dyraniadau Ariannol Amcanol y cytunwyd arnynt yn y Ddogfen Raglen Sengl. Oni cheuir y bwlch hwn yn y dyfodol agos,*

*byddai'n rhaid datymrwymo cyfran helaeth ohono ar ddiwedd 2004.* '

2. Dywedodd un aelod nad oedd pwynt 8.2 cofnodion y cyfarfod ar 14 Tachwedd yn adlewyrchu'r hyn a gafodd ei ddweud am y cyhoeddiadau polisi pwysig y dylai'r Gweinidog eu dwyn gerbron y Pwyllgor. Cytunodd y Cadeirydd y dylai'r Clerc adolygu tâp y cyfarfod. **[Gweithredu: Clerc]**

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**